**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl dros 50 oed**

---

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor Menter a Busnes am y gwaith y maent wedi'i wneud i archwilio'r cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl dros 50 oed yng Nghymru.

Fel y nodwyd yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor ar 25 Chwefror, mae llawer o gyflogwyr o'r farn bod eu gweithwyr hŷn yn ased gwerthfawr. Ymhlith y nodweddion cadarnhaol a briodolir iddynt mae etheg gwaith gref, dibynadwyedd, teyrngarwch, profiad ym myd busnes, cof sefydliadol a sgiliau arbenigol. Mae manteision clir i Gymru drwy gadw sgiliau a phrofiadau gweithwyr hŷn yn ogystal ag edrych ymlaen a sicrhau ein bod yn datblygu economi wybodaeth fedrus y dyfodol.

Mae gan Lywodraeth Cymru eisoes raglen newid fawr sy'n mynd rhagddi i ddatblygu system sgiliau gynaliadwy a chystadleuol dros y degawd nesaf. Nodir y blaenoriaethau ar gyfer y diwygiadau hyn yn y Datganiad Polisi ar Sgiliau a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014. Credaf yn gryf mai'r ffordd orau o gynorthwyo'r cyfleoedd cyflogaeth i bobl dros 50 oed yw parhau â'r cynlluniau sydd gennym mewn lle a sicrhau ein bod yn cynnwys anghenion grwpiau penodol o unigolion o bob oedran wrth inni ddatblygu ein polisïau a'n rhaglenni ymhellach.

Yn amlwg bydd ein trafodaethau parhaus â'r Adran Gwaith a Phensiynau ar ddyfodol y Rhaglen Waith a sut rydym yn cael cynnig cyflogaeth cyson ac ymatebol i Gymru o fudd uniongyrchol i unigolion o bob oedran. Croesawaf y cyfle i barhau i weithio gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn a rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol eraill i edrych ar y camau gweithredu penodol y gellid eu cymryd yn y maes hwn ac wrth ystyried unrhyw newidiadau i setliad datganoli Cymru yn y dyfodol.

Rwyf yn ymwybodol o rywfaint o bryder ynglŷn â Fframwaith ar gyfer buddsoddi ar y cyd mewn sgiliau Llywodraeth Cymru a'r canfyddiad ei fod yn ceisio cyfyngu ar gymorth i'r unigolion hynny dros 25 oed ac, felly, yr unigolion hynny sydd dros 50 oed. Hoffwn ailadrodd wrth y Pwyllgor bod pob un o'n rhaglenni sgiliau yn gallu cynorthwyo anghenion unigolion beth bynnag yw eu hoedran, oni nodir yn wahanol. Fodd bynnag rhaid hefyd cydnabod y pwysau ar y gyllideb sgiliau gyffredinol a'r angen i gymryd rhai penderfyniadau anodd o ran sut y mae ein rhaglenni yn cael eu blaenoriaethu i gynorthwyo anghenion hirdymor economi Cymru. Er enghraifft, dyma pam rydym wedi ymrwymo i ganolbwyntio ar ein darpariaeth brentisiaeth ar gynorthwyo ymgysylltu â phobl ifanc a'u cyflogaeth ac ar gyflawni'r sgiliau galwedigaethol lefel uchel sydd eu hangen yn sail i swyddi yn y dyfodol.

Rwyf wedi nodi isod ymatebion i'r 11 o argymhellion a gyflwynwyd gan y Pwyllgor. Er bod mwyafrif yr argymhellion yn rhan o'm portffolio i, rwyf hefyd wedi rhannu'r ymatebion â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

o ystyried ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r Strategaeth Pobl Hŷn a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

---

**Argymhelliad 1**
Dylai Llywodraeth Cymru arwain y blaen a gweithio gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn comisiynu gwaith ymchwil mewn perthynas â phobl dros 50 oed ar gyfer bob un o'r canlynol:

- Cyfleoedd cyflogaeth;
- Mynd i'r afael â diweithdra hirdymor;
- Hunangyflogaeth;
- Lefelau o dlodi ymhlith pobl hŷn.

Dylai'r gwaith gael ei wneud ar frys gyda blaenoriaeth uchel a dylid cynnal asesiad llawer mwy cywir o'r materion economaidd a sefyllfa pobl dros 50 oed.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu amrywiaeth o weithgarwch ymchwil annibynnol a pharhaus i gynorthwyo paratoi tystiolaeth i lywio meysydd polisi a rhaglenni penodol. Lle y mae'n berthnasol ac yn briodol mae lle i edrych ar ymestyn y ffynonellau presennol o dystiolaeth sydd ar gael mewn ymateb i fylchau posibl. Yn y lle cyntaf mae hyn fel arfer yn cynnwys adolygu'r cyfle i dablu ffynonellau presennol o ystadegau gwladol, er enghraifft Arolwg Blynyddol o Boblogaeth y DU, i adlewyrchu anghenion meysydd polisi penodol.

Ceir hefyd amrywiaeth o weithgarwch ymchwil a gynhelir yn allanol i Lywodraeth Cymru a all weithiau fod o fudd wrth lunio sail dystiolaeth fwy cyflawn. Er enghraifft roedd adroddiad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree ym mis Mehefin 2015 ar Ddeall Oedran a'r Farchnad Lafur.

Ar sail y pwyntiau uchod, byddaf felly'n ystyried y cais gan y Pwyllgor i baratoi ymchwil o ran pobl 50 oed a hŷn, wrth nodi bod y cais hwn yn cael ei weld yng nghyd-destun rhaglen bresennol o weithgarwch ymchwil Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth bellach i'r amrywiaeth o brosiectau ymchwil presennol sy'n cael eu cynnal sy'n gysylltiedig â'r maes polisi hwn, ac i ba raddau y mae'r ffynonellau data presennol yn gallu darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani drwy wneud newidiadau i'r ffordd y mae ffynonellau data o'r fath yn cael eu cyflwyno.

**Goblygiadau Ariannol** – Rhaid talu am unrhyw gostau ychwanegol drwy gyllidebau rhaglenni presennol a gallu ac adnoddau presennol y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn Llywodraeth Cymru. Bydd angen cytuno ar fanyleb gyda'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a'i hamserlennu ochr yn ochr ag ymrwymiadau ymchwil presennol ac yn y dyfodol.

**Argymhelliad 2:**
Dylid ystyried y rhwystrau gwahanol a wynebir gan ddynion a menywod a'u profiadau gwahanol o'r gweithle wrth ddatblygu unrhyw gymorth er mwyn helpu pobl hŷn i gael gwaith; a dylai Llywodraeth Cymru gwblhau asesiadau ar wahân o effaith ar gyfer dynion a menywod dros 50 oed ar gyfer eu holl raglenni hyfforddi a sgiliau.

**Ymateb:** Gwrthod

Fel y nodwyd yn fy llythyr dyddiedig 11 Mawrth 2015, cynhaliwyd cyfres o asesiadau effaith yn cwmpasu Hawliau Plant, Cydraddoldeb, Prawfesur Polisïau o Safbwynt Anghenion Cefn Gwlad a'r iaith Gymraeg i lywio polisi sgiliau'r Llywodraeth. Yn ogystal, cyflwynais bapur atodol i'r Pwyllgor ar sicrhau bod yr unigolion hynny dros 50 oed yn ymgysylltu â phrif raglenni cyflogaeth a sgiliau Llywodraeth Cymru. Nododd y papur hwnnw'r effaith ar y garfan oedran benodol hon ac mae'r wybodaeth a ddarperir yn adlewyrchu'r asesiadau effaith craidd a gynhaliwyd eisoes mewn perthynas â pholisi sgiliau ehangach Llywodraeth Cymru.

Nid wyf yn bwriadu comisiynu unrhyw asesiadau effaith ôl-weithredol lle y mae camau gweithredu o'r fath eisoes wedi'u cwmpasu drwy'r asesiadau o effaith hynny a luniwyd yn flaenorol. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod yr angen i fonitro effaith barhaus polisi sgiliau Llywodraeth Cymru a bydd hyn yn cael ei lywio gan ein Mesurau Perfformiad Sgiliau a gyhoeddwyd ym mis Medi 2014.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim o ystyried nad yw'r argymhelliad hwn yn cael ei dderbyn. Bydd gwaith parhaus i adolygu effaith polisi sgiliau Llywodraeth Cymru yn cael ei ddatblygu gan y gweithredu presennol o'r Cynllun Gweithredu Sgiliau i integreiddio'r Mesurau Perfformiad Sgiliau ar draws amrywiaeth o bolisïau a rhaglenni.

---

**Argymhelliad 3:**
Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith ymchwil i nodi faint o wahaniaethu gwirioneddol neu wahaniaethu canfyddedig sydd ar sail oedran mewn perthynas â sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Byddaf yn ceisio ymgorffori'r cais hwn fel rhan o'r briff ymchwil cyffredinol a nodir yn Argymhelliad 1 ac yn unol â gallu ac adnoddau ffynonellau ymchwil a data presennol gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill.

Cyfeiriwch hefyd at yr ymateb a roddwyd i Argymhelliad 1.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd angen i unrhyw gostau ychwanegol ddod o gyllidebau rhaglenni presennol a gallu ac adnoddau presennol y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi. Bydd angen cytuno ar fanyleb

gyda'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a'i hamserlennu ochr yn ochr ag ymrwymiadau ymchwil presennol ac yn y dyfodol.

---

**Argymhelliad 4:**
Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn, yr Adran Gwaith a Phensiynau, cyflogwyr arwyddocaol yng Nghymru neu gyrff eraill sy'n cynrychioli cyflogwyr ac undebau llafur er mwyn gwneud mwy i herio gwahaniaethu ar sail oedran.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor.

Drwy'r Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol i bobl hŷn a'r gwaith rydym yn ei wneud i gynorthwyo rhwydweithiau pobl hŷn, mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo ar draws Llywodraeth Cymru i herio gwahaniaethu ar sail oedran yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru.

Mae'r Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol yn darparu, drwy'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gyngor i Weinidogion Cymru ar sut y mae eu polisïau a'u strategaethau yn effeithio ar bobl hŷn. Mae gan y Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol dair ffrwd waith, ac mae un o'r rhain yn canolbwyntio ar bobl dros 50 oed a chyflogaeth.

Yn ogystal â hyn, mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn wedi sefydlu'r Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys pum ffrwd waith, ac un o'r rhain yw'r Grŵp Cynghori Arbenigol Cyfleoedd ar gyfer Dysgu a Chyflogaeth.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau eisoes yn cael ei chynrychioli ar y ddau grŵp hyn ac mae'r ddau grŵp yn mynd ati i ystyried sut y gallant ddylanwadu ar gyflogwyr i ystyried manteision cyflogi pobl hŷn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio ymgorffori'r argymhelliad hwn i mewn i waith y grwpiau a nodwyd uchod lle y mae'n briodol i'w cylch gorchwyl presennol ac y gellir ei ddatblygu o fewn adnoddau presennol.

**Goblygiadau Ariannol** – Y bwriad yw defnyddio'r gweithgarwch presennol sy'n cael ei gynnal gan y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol ac, ar y sail hon, nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol y tu hwnt i'r adnoddau hynny sydd eisoes wedi'u hymrwymo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y meysydd gwaith hyn.

---

**Argymhelliad 5:**
Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dylunio cynllun tebyg i Twf Swyddi Cymru er mwyn helpu pobl dros 50 oed i ailymuno â'r farchnad lafur.

**Ymateb:** Gwrthod

Hoffwn ailadrodd wrth y Pwyllgor mai'r rhesymeg dros Twf Swyddi Cymru yw cynorthwyo pobl ifanc i gael y profiad gwaith gwerthfawr sydd ei angen arnynt i symud ymlaen yn y farchnad lafur. Mae rhaglenni cyflogaeth ehangach ar gael yn genedlaethol ac yn rhanbarthol ac rydym yn gweithio gyda nifer o asiantaethau, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ac awdurdodau lleol i sicrhau bod y rhaglenni hyn yn cynnig y lefel gywir o gymorth i'r unigolion hynny sydd naill ai mewn gwaith neu sy'n chwilio am waith ledled Cymru.

Mae llawer o bobl yn y garfan o bobl hŷn yn wynebu anghenion gwahanol iawn a gallant wynebu rhwystrau gwahanol iawn i gyflogaeth na'r rhai mewn grwpiau oedran eraill. Mae nifer mawr ohonynt yn wynebu problemau sy'n ymwneud ag iechyd sy'n eu hatal rhag dechrau cyflogaeth ac efallai eu bod yn cael budd-daliadau anweithgar hirdymor. Mae mwy o ofyniad ymhlith y garfan hon ar gyfer mwy o weithgarwch i ymgysylltu a magu hyder, gyda mwy o bwyslais ar y sgiliau cyflogadwyedd meddalach. Mae'n annhebygol y byddai darparu rhaglen sydd ond yn rhoi profiad gwaith i bobl hŷn yn fuddiol, yn enwedig lle maent wedi wynebu cyfnodau o ddiweithdra yn ystod eu bywyd gwaith.

Nid wyf yn credu bod achos busnes cyflawn wedi cael ei gyflwyno i awgrymu y byddai rhaglen sy'n cyfateb i Twf Swyddi Cymru yn fuddiol i'r rhai dros 50 oed o ystyried y duedd hirdymor mewn cyfraddau cyflogaeth ac anweithgarwch ar gyfer y garfan oedran benodol hon, ac yn enwedig o gymharu â'r rhai o dan 25 oed. Ceir hefyd adnoddau prin i gyflawni ymrwymiad o'r fath yng nghyd-destun cyllidebau presennol.

I ategu'r gwaith hwn ein bwriad yw cyflwyno rhaglen gyflogadwyedd newydd i oedolion o fis Ebrill 2016 a fydd yn darparu cymorth sgiliau i oedolion o bob oedran. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar Sgiliau Hanfodol craidd, gan gynnwys llythrennedd digidol, fel bod gan oedolion sail gref ar gyfer cael gafael ar gyflogaeth neu symud ymlaen ati.

Bydd gwaith yn y dyfodol ar ddatblygu Rhaglen Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau ar ôl 2017 yn gyfle amlwg i gysoni'r ddarpariaeth sydd ar gael i gynorthwyo pobl ddi-waith i gael cyflogaeth gynaliadwy, gyda budd uniongyrchol i unigolion o bob oedran. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i benderfynu sut y bydd y Rhaglen Waith yn cael ei chyflawni yng Nghymru a pha hyblygrwydd sydd ei angen wrth ymateb i gyflwr penodol y farchnad lafur, fel gweithlu sy'n heneiddio. Bydd angen ystyried y materion hyn yn erbyn ein bwriad i gyflwyno'r Rhaglen gyflogadwyedd i oedolion, Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth Cymru, o fis Ebrill 2016 ac a allai darpariaeth o'r fath orgyffwrdd â'r broses barhaus o gyflawni'r Rhaglen Waith.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol a gweithredoedd polisi sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru fel y nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Sgiliau. Mae'r bwriad i gynorthwyo Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth Cymru o fis Ebrill 2016 wedi cael ei gynnwys mewn cyllidebau presennol. Fodd bynnag, os bydd

cyllidebau'r dyfodol yn newid, efallai y bydd angen ystyried dull diwygiedig. Bydd angen i Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth Cymru gael ei ystyried hefyd yng ngoleuni unrhyw newidiadau i'r Rhaglen Waith, gan gynnwys y potensial ar gyfer rhagor o ddatganoli yn y dyfodol. Gweler hefyd yr ymateb i Argymhelliad 10 isod.

---

**Argymhelliad 6:**
Naill ai ar ei phen ei hun, neu gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymgyrch Positif am Oed a gaiff ei hyrwyddo'n dda i bob cyflogwr yng Nghymru er mwyn hybu'r buddiannau o gyflogi a chadw gweithwyr dros 50 oed.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn datblygu Cynllun Cyfathrebu ar gyfer 2015-16 yn sail i'n gwaith ar gynyddu ymgysylltu â chyflogwyr a buddsoddi mewn sgiliau i gyd-fynd â Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi ar y cyd mewn sgiliau. Er bod ymgyrch benodol sy'n cael ei hyrwyddo'n dda i bob cyflogwr yng Nghymru yn debygol o fod yn rhy uchelgeisiol, ceir y gallu a'r adnoddau i gysoni'r gwaith hwn â'n Cynllun Cyfathrebu presennol a thrwy weithio gyda swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn a sefydliadau fel yr Adran Gwaith a Phensiynau lle y bo'n briodol.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Telir am unrhyw gostau ychwanegol o adnoddau rhaglenni presennol a neilltuwyd o linell gyllideb y Cynllun Gweithredu Sgiliau o fewn yr Is-adran Polisi Sgiliau ac Ymgysylltu Ieuenctid i ategu'r Cynllun Cyfathrebu sy'n sail i elfennau o'r Cynllun Gweithredu Sgiliau.

---

**Argymhelliad 7:**
Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru:

- gomisiynu gwaith ymchwil i "hunangyflogaeth a phobl dros 50 oed" er mwyn darparu llwyfan gadarn ar gyfer llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth;
- asesu a oes cymorth ariannol rhesymol i bobl dros 50 oed sydd am ddechrau eu busnes eu hunain a diweddaru naill ai'r Pwyllgor hwn, neu ei olynydd, ar eu canfyddiadau.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Yn unol â'r ymateb i Argymhellion 1 a 3 yn ymwneud â pharatoi deunydd ymchwilio ychwanegol, byddaf yn cynorthwyo ymchwil bellach ar hunangyflogaeth o ran y garfan oedran dros 50 oed ar yr amod ei bod yn bosibl gwneud hynny yng nghyd-destun ymchwil bresennol i hunangyflogaeth a gynhelir gan Lywodraeth Cymru.

Cyfeiriwch hefyd at yr ymateb a roddwyd i Argymhelliad 1 ac Argymhelliad 3.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Rhaid defnyddio cyllidebau rhaglenni presennol a gallu ac adnoddau presennol y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i dalu am unrhyw gostau ychwanegol. Bydd angen cytuno ar fanyleb gyda'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a'i hamserlennu ochr yn ochr ag ymrwymiadau ymchwil presennol ac yn y dyfodol.

---

**Argymhelliad 8:**
Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth sgiliau yn benodol ar gyfer pobl dros 50 oed. Dylai ategu strategaethau sgiliau ar gyfer pob oedran Llywodraeth Cymru. Dylai gynnwys rhai canlyniadau clir a phenodol iawn a nodi sut y caiff y canlyniadau hyn eu monitro.

**Ymateb:** Gwrthod

Mae'r cam gweithredu gwreiddiol a gyflwynwyd yn y Strategaeth Pobl Hŷn i lunio Strategaeth Sgiliau Pobl Hŷn wedi'i ddisodli gan ein Datganiad Polisi ar Sgiliau a'r Cynllun Gweithredu Sgiliau, a gyhoeddwyd y llynedd. Ar hyn o bryd nid wyf yn bwriadu cyhoeddi strategaeth sgiliau ar wahân ar gyfer gweithwyr hŷn o ystyried y rhaglen waith barhaus sy'n cael ei datblygu i weithredu'r camau gweithredu a ddisgrifiwyd yn y Datganiad Polisi ar Sgiliau.

Mae ein polisi sgiliau presennol eisoes yn cynorthwyo amrywiaeth o gamau gweithredu strategol a chredaf y bydd y rhain o fudd uniongyrchol i bobl hŷn yng Nghymru fel ein gwaith gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, ein pwyslais ar nodi effaith ein polisïau a'n rhaglenni sy'n cael eu llywio gan y Mesurau Perfformiad Sgiliau yn ogystal â gwella lefelau cyffredinol o fuddsoddi mewn sgiliau a ategir gan ein Fframwaith ar gyfer buddsoddi ar y cyd mewn sgiliau.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim o ystyried nad yw'r argymhelliad hwn yn cael ei dderbyn. Bydd datblygu polisi a rhaglen barhaus yn cael ei ddatblygu yn unol â'r Datganiad Polisi ar Sgiliau (Ionawr 2014) a'i ategu gan y camau gweithredu a nodir yng Nghynllun Gweithredu Sgiliau Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2014).

---

**Argymhelliad 9:**
Dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu canlyniadau penodol sy'n hyrwyddo gweithgarwch economaidd pobl dros 50 oed (yn ogystal â'r strategaeth sgiliau) fel rhan o'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-23 a nodi pa adnoddau a gaiff eu neilltuo er mwyn sicrhau bod y canlyniadau hyn yn cael eu sicrhau.

**Ymateb:** Gwrthod

Fel yr amlinellir mewn ymateb i Argymhelliad 8, mae paratoi Strategaeth Sgiliau Pobl Hŷn wedi cael ei ddisodli gan gyhoeddi ein Datganiad Polisi ar Sgiliau a'r Cynllun Gweithredu Sgiliau ategol.

Cam gweithredu allweddol o'r cynllun oedd paratoi amrywiaeth o Fesurau Perfformiad Sgiliau a gyhoeddwyd ym mis Medi 2014. Mae'r mesurau hyn yn monitro pa mor dda mae polisi a rhaglenni sgiliau yn cynorthwyo swyddi a thwf, cynaliadwyedd ariannol, cydraddoldeb a thegwch a lefelau sgiliau i sicrhau bod Cymru yn parhau'n gystadleuol mewn economi fyd-eang.

Bydd y mesur cydraddoldeb a thegwch yn monitro newidiadau yn nemograffeg yr unigolion hynny sy'n defnyddio ein rhaglenni cyflogaeth a sgiliau. Yn benodol, byddwn yn monitro demograffeg yn seiliedig ar oedran, anabledd, ethnigrwydd a rhyw.

At hynny, bydd y mesurau sy'n canolbwyntio ar swyddi a thwf, sefydlogrwydd ariannol (h.y. cynyddu buddsoddiad cyflogwyr mewn sgiliau cyflogai) a chodi lefelau sgiliau yn cynorthwyo'n uniongyrchol weithgarwch economaidd pobl dros 50 oed.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim o ystyried nad yw'r argymhelliad hwn yn cael ei dderbyn. Bydd mesur effaith polisïau cyflogaeth a sgiliau Llywodraeth Cymru, drwy integreiddio ei Mesurau Perfformiad Sgiliau, yn darparu data perthnasol i ategu llinyn ‘ariannol’ y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-23.

---

**Argymhelliad 10:**
Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- galw am barhau i ddatganoli rhaglenni sgiliau yr Adran Gwaith a Phensiynau i Gymru;
- parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn lleihau'r achosion o ddyblygu rhwng rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae datganoli rhaglenni cyflogaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi bod yn ystyriaeth allweddol dros y misoedd diwethaf yn dilyn cyhoeddi papur gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi ar ddiwedd mis Chwefror eleni.

Drwy bapur gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi mae ymrwymiad wedi'i wneud i Lywodraeth y DU ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar feysydd a amlinellwyd yn adroddiad Comisiwn Smith ar ddatganoli yn yr Alban a all fod yn berthnasol i Gymru. Mae rhaglenni cyflogaeth yn rhan o hyn. Felly mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau trafodaethau gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar y potensial ar gyfer datganoli rhaglenni cyflogaeth.

Byddai mantais sylweddol drwy gymryd cyfrifoldeb am y Rhaglen Waith am y bydd yn gyfle amlwg i sicrhau bod y ddarpariaeth sydd ar gael i gynorthwyo pobl ddi-waith i gael cyflogaeth gynaliadwy yn cael ei chysoni'n well gan ganolbwyntio sylw a buddsoddiad ar rai o'r bobl fwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae angen am system well o gymorth i bobl sy'n ceisio cyflogaeth

a mwy o gysoni rhwng y ddarpariaeth sydd ar gael a chyfleoedd yn y farchnad lafur leol.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim ar hyn o bryd. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru eisoes yn ymgysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau ar y Rhaglen Waith a'r potensial ar gyfer rhagor o ddatganoli yn y dyfodol. Mae'r Argymhelliad hwn yn cyd-fynd â'r gwaith hwnnw felly nid yw'n cyflwyno unrhyw ofynion adnoddau ychwanegol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

---

**Argymhelliad 11:**
Mae'r Pwyllgor yn deall ei rhesymau dros flaenoriaethu cyllid ar gyfer prentisiaethau (lefel 3 ac is) ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed. Fodd bynnag, dylai Llywodraeth Cymru fonitro effaith hyn ar gyfleoedd hyfforddi, sgiliau a chymwysterau cyflogeion dros 25 oed, a chyflogeion dros 50 oed yn benodol.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Wrth fonitro effaith y Fframwaith ar gyfer buddsoddi ar y cyd mewn sgiliau rydym yn bwriadu defnyddio'r Mesurau Perfformiad Sgiliau presennol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2014 wrth ddod i gasgliadau ar ba mor dda mae'r polisi yn cynorthwyo swyddi a thwf, cynaliadwyedd ariannol, cydraddoldeb a thegwch a meincnodi rhyngwladol.

Wrth ddatblygu'r mesurau, ystyriwyd y ffordd orau o wella ein statws fel cenedl ac i gynorthwyo'r sylw ar swyddi, twf a threchu tlodi. Rydym yn cydnabod, wrth ddatblygu gwaith ar y Mesurau Perfformiad Sgiliau, y bydd hyn yn gyfle i adeiladu ar y wybodaeth a gafwyd o ffynonellau eraill ar sgiliau a'r farchnad lafur gan gynnwys y rhai sydd ar gael drwy'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ailadrodd wrth aelodau'r Pwyllgor fod holl raglenni sgiliau Llywodraeth Cymru ar gael ar sail pob oed, oni nodir fel arall.

Rwy'n cydnabod, drwy flaenoriaethau darpariaeth prentisiaethau i'r rhai o dan 25 oed a chanolbwyntio ar Brentisiaethau Uwch, y ceir canfyddiad bod y ddarpariaeth hon bellach yn gyfyngol o ran oedran. Nid yw hyn yn wir. Mae darpariaeth prentisiaethau yn dal ar gael ar sail pob oedran er ein bod wedi dewis cynorthwyo cyflogwyr lle maent naill ai yn: (i) ceisio datblygu sgiliau galwedigaethol lefel uwch ar Lefel 4 ac uwch (h.y. drwy Brentisiaeth Uwch); a/neu (ii) lle maent yn cyfrannu at leihau lefelau o ymgysylltu ag ieuenctid a chyflogaeth drwy gynorthwyo prentis o dan 25 oed.

Rydym wedi defnyddio'r dull hwn mewn ymateb i'r her uniongyrchol o ran ymgysylltu â phobl ifanc a chyflogaeth. Mae'r dull hwn hefyd yn cydnabod yr angen hirdymor i Gymru ddatblygu marchnad lafur tra medrus a chystadleuol a fydd yn gallu cynorthwyo cyfleoedd ar gyfer swyddi a thwf yn y dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim ar hyn o bryd.

---

**Julie James AC**
**Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg**